**Cabinet**
**22 Mai 2023**

## POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO EIDDO

### Y Pwrpas:

- Rhoi polisi yn ei le sy'n caniatáu i swyddogion weithredu'r swyddogaeth Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo yn effeithiol, yn gyson ac yn effeithlon er budd trigolion, y gwasanaethau brys, busnesau ac ymwelwyr â'r sir.
- Darparu meini prawf clir i swyddogion ystyried rhinweddau'r ceisiadau a dderbynnir, gan gynnwys yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg.
- Cadarnhau'r strwythur ffioedd fel y nodir yn yr adroddiad a atodir.

**Egluro'r broses ymgynghori a fydd yn cael ei chynnal yn fewnol ac yn allanol yn y Cyngor - gan gynnwys cysylltu â'r Aelod lleol a/neu'r Cyngor Tref a Chymuned fel y bo'n briodol.**

### Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

1. Ystyried a derbyn argymhellion yr adroddiad a mabwysiadu'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd.

### Y rhesymau:

- I ymateb i'r Rhybudd Gynnig a phenderfyniad dilynol y Cyngor ar 13 Hydref 2021 - y cyfeirir ato yng nghofnod 9.1.
- Sicrhau bod y Cyngor yn adlewyrchu'r pwerau a'r dyletswyddau deddfwriaethol perthnasol hynny, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac Adrannau 17 i 19 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (1925).

Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad OES

YR AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y Cynghorydd Ann Davies

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth**<br>Lle a Seilwaith<br><br>**Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>Rhodri Griffiths<br><br>**Awdur yr Adroddiad:**<br>Ian Llewelyn | Swyddi:<br><br>Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd<br><br>Rheolwr Blaen-gynllunio | Rhifau ffôn: 01267 246270<br><br>Cyfeiriadau E-bost:<br>RGriffiths@sirgar.gov.uk<br><br>01267 228816<br>IRLlewelyn@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council